Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**

# Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Ynni Prydain Fawr

Hydref 2024

## 1. Cyflwyniad

**1.** Ar 8 Awst 2024, gosododd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru ('yr Ysgrifennydd Cabinet') Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Ynni Prydain Fawr ('y Memorandwm') gerbron y Senedd.

**2.** Ar 17 Medi 2024, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ('y Pwyllgor') a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, gyda dyddiad terfynol o 15 Tachwedd 2024 i gyflwyno adroddiad.

### Ein dull ni

**3.** Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ei gyfarfod ar 3 Hydref 2024.

# 2. Bil Ynni Prydain Fawr

**4.** Cyflwynwyd Bil Ynni Prydain Fawr ('y Bil') yn Nhŷ'r Cyffredin ar 25 Gorffennaf 2024.

## Amcan polisi

**5.** Yn ôl y Nodiadau Esboniadol, bydd y Bil yn gwneud y canlynol: "*enable the Secretary of State for Energy Security and Net Zero to designate a company as Great British Energy and place it on a statutory footing. Great British Energy will be an operationally independent company wholly owned by the Government. Its objects will be to facilitate, encourage and participate in the production, distribution, storage and supply of clean energy; the reduction of greenhouse gas emissions from energy produced from fossil fuels; improvements in energy efficiency; and measures for ensuring energy security*".

**6.** Amcan polisi'r Bil, fel y'i hamlinellir ym mharagraff 3 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, yw:

> *"bod cwmni Ynni Prydain Fawr yn sbarduno ynni glân, yn creu swyddi, yn ein gwneud yn annibynnol o ran ynni ac yn rhoi gwerth eu harian i drethdalwyr y DU."*

**7.** Mae paragraff 9 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hefyd yn nodi bod y Bil hefyd yn cynnwys darpariaeth bod yr Ysgrifennydd Gwladol "yn rhoi cymorth ariannol i'r cwmni, yn gosod ei flaenoriaethau strategol ac yn rhoi cyfarwyddyd gorfodol iddo a bod cyfrifon blynyddol y cwmni yn cael eu darparu i'r Ysgrifennydd Gwladol a'u gosod gerbron Senedd y Deyrnas Unedig".

# 3. Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

## Darpariaethau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

**8.** Yn ôl Llywodraeth Cymru, mae angen cydsyniad ar gyfer y Bil cyfan (cymalau 1 i 8). Ceir rhagor o fanylion ym mharagraffau 13 i 24 o'r Memorandwm.

**9.** Mae Llywodraeth y DU yn rhannu barn Llywodraeth Cymru bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y Bil.

## Safbwynt presennol Llywodraeth Cymru ynghylch cydsyniad

**10.** Nid yw Llywodraeth Cymru wedi nodi'n benodol ei rhesymau dros wneud y darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil. Daw Llywodraeth Cymru i'r casgliad ei bod "yn cefnogi deddfwriaeth i sefydlu Ynni Prydain Fawr i hwyluso ac annog datblygu prosiectau ynni adnewyddadwy". Mae'n ychwanegu'r canlynol:

- nid oes llawer o wybodaeth am nodau gweithredol ac ymarferol Ynni Prydain Fawr. Mae Cymru eisoes wedi bwrw yn ei blaen â gwaith yn y maes hwn drwy Trydan Gwyrdd Cymru sy'n gwmni ynni cyhoeddus sydd eisoes wedi'i sefydlu i ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy yng Nghymru ar ystâd Llywodraeth Cymru;
- ei bod am drafod ymhellach â Llywodraeth y DU ynghylch rôl Gweinidogion a Senedd Cymru yn y Bil;
- y bydd yn diweddaru'r Senedd ynghylch barn Llywodraeth Cymru ar y Bil hwn, ar ôl trafod â Llywodraeth y DU am y materion hynny a bwriad ei pholisi ar Ynni Prydain Fawr.

## Materion sydd heb eu datrys

**11.** Ar ôl gwaith cychwynnol i ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cabinet i ofyn am ragor o wybodaeth am y canlynol:

- y posibilrwydd o ddyblygu swyddogaethau Ynni Prydain Fawr a Trydan Gwyrdd Cymru,
- y gorgyffwrdd posibl rhwng cylch gwaith, nodau a gweithrediad Ynni Prydain Fawr a chylch gwaith, nodau a gweithrediad Ynni Cymru, Gwasanaeth Ynni Cymru ac Ynni Cymunedol Cymru, a
- rôl Gweinidogion Cymru a'r Senedd o ran pennu blaenoriaethau strategol Ynni Prydain Fawr i'r graddau y maent yn ymwneud â materion sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**12.** Gellir gweld copi o'r llythyr ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

## Barn y Pwyllgor

Ar adeg ein gwaith i ystyried y Memorandwm hwn, er bod Llywodraeth Cymru wedi datgan ei chefnogaeth i'r ddeddfwriaeth arfaethedig, nid oedd mewn

sefyllfa i argymell bod y Senedd yn rhoi cydsyniad i ddarpariaethau'r Bil. Rydym yn disgwyl i'r Ysgrifennydd Cabinet roi diweddariad ar drafodaethau â Llywodraeth y DU cyn cyflwyno'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â'r Memorandwm.

Mae'r Pwyllgor wedi gofyn am eglurhad gan yr Ysgrifennydd Cabinet ar nifer o faterion sy'n weddill. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â sut y bydd Ynni Prydain Fawr yn gweithredu ochr yn ochr â chyrff Cymreig presennol ac yng nghyd-destun polisi ynni Llywodraeth Cymru.

Yn gyntaf, mae gennym bryderon am y posibilrwydd y bydd swyddogaethau Ynni Prydain Fawr a Trydan Gwyrdd Cymru yn cael eu dyblygu a'r dull arfaethedig o fynd i'r afael â hynny. Rydym hefyd yn pryderu y gallai gweithrediad Ynni Prydain Fawr effeithio ar allu Trydan Gwyrdd Cymru i gyflawni ei nodau'n llwyddiannus.

Yn ôl y Memorandwm, bwriad Llywodraeth y DU yw y bydd Ynni Prydain Fawr yn gallu darparu cymorth i "awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol trwy amrywiaeth o fecanweithiau, gan gynnwys trwy ddarparu ymhlith pethau eraill, ecwiti, benthyciadau, grantiau, yswiriant a gwarantau". Rydym felly wedi gofyn am eglurhad gan yr Ysgrifennydd Cabinet ynghylch a yw'n ystyried bod unrhyw orgyffwrdd posibl rhwng cylch gwaith, nodau a gweithrediad Ynni Prydain Fawr a rhai Ynni Cymru, Gwasanaeth Ynni Cymru ac Ynni Cymunedol Cymru.

Mae cymal 5 o'r Bil (sy'n ymwneud â blaenoriaethau a chynlluniau strategol) yn darparu bod rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol baratoi datganiad o'r blaenoriaethau strategol ar gyfer Ynni Prydain Fawr. Cyn gwneud datganiad, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru i'r graddau y mae'r datganiad yn ymwneud â materion sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Mae cymal 5(7) yn darparu y gellir bodloni'r ddyletswydd i ymgynghori drwy gynnal ymgynghoriad *cyn* i'r Ddeddf ddod i rym. Nid yw'r darpariaethau ymgynghori hyn, sy'n osgoi'r Senedd, yn foddhaol. Rydym wedi gofyn am eglurhad gan yr Ysgrifennydd Cabinet ynghylch sut yr ymgynghorir â'r Senedd ar y materion hyn a sut y gellir sicrhau bod y Senedd yn craffu ar ddatganiadau o'r fath.

At hynny, cawsom ein taro ddiffyg cyfranogiad Gweinidogion Cymru yn y broses o wneud penderfyniadau. O ystyried y gorgyffwrdd posibl rhwng swyddogaethau, rydym yn pryderu mai dim ond ymgynghori â Gweinidogion Cymru y mae'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ei wneud, yn hytrach na cheisio

cydsyniad Gweinidogion Cymru ar gyfer unrhyw flaenoriaethau strategol sy'n ymwneud â materion datganoledig.

Os daw i law mewn pryd, byddwn yn sicrhau bod ymateb yr Ysgrifennydd Cabinet ar gael i Aelodau o'r Senedd cyn y ddadl ar y Memorandwm. Nid yw'r Pwyllgor yn gallu ffurfio barn ynghylch a ddylid argymell i'r Senedd ei bod yn rhoi neu'n atal cydsyniad deddfwriaethol nes bod Llywodraeth Cymru wedi darparu rhagor o wybodaeth.

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Rebecca Evans AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

7 Hydref 2024

Annwyl Rebecca,

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Ynni Prydain Fawr

Fel y gwyddoch, mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Ynni Prydain Fawr wedi cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (y Pwyllgor) i'w ystyried. Y terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad yw 15 Tachwedd 2024.

Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ei gyfarfod ar 3 Hydref 2024, a chytunodd yr Aelodau y dylwn i ysgrifennu atoch chi er mwyn gofyn am ragor o wybodaeth i lywio ein gwaith.

Ar adeg gosod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, cydnabu Llywodraeth Cymru fod gorgyffwrdd rhwng nodau a gweithrediad Ynni Prydain Fawr (Great British Energy, neu GBE) a sefydliad Trydan Gwyrdd Cymru. Dywedodd:

> *"...oherwydd lefel strategol uchel y Bil hwn a'r wybodaeth sydd ar gael am Ynni Prydain Fawr yn gyffredinol ar hyn o bryd, mae'n anodd gwybod beth fydd effaith gweithrediadau Ynni Prydain Fawr fel cwmni na beth fydd gwrthdaro'r gystadleuaeth bosib â Trydan Gwyrdd Cymru neu agweddau eraill ar swyddogaethau cyflenwi ynni Llywodraeth Cymru."*

1. Pa ystyriaeth yr ydych chi wedi'i rhoi i'r posibilrwydd o ddyblygu swyddogaethau Ynni Prydain Fawr a Trydan Gwyrdd Cymru, a sut y mae hyn yn dylanwadu ar eich penderfyniad ynghylch a ddylid argymell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i'r darpariaethau yn y Bil?

2. A oes gennych chi unrhyw bryderon y bydd gweithrediad Ynni Prydain Fawr yn effeithio ar allu Trydan Gwyrdd Cymru i gyflawni ei amcanion yn llwyddiannus?

3. Pa ystyriaeth yr ydych chi wedi'i rhoi i sut y bydd y cydadwaith rhwng Ynni Prydain Fawr a Trydan Gwyrdd Cymru yn cael ei reoli'n ymarferol?

4. A oes unrhyw amgylchiadau lle byddech chi'n ceisio darparu prosiectau yng Nghymru drwy Ynni Prydain fawr ac, os felly, beth fyddai'r meini prawf ar gyfer gwneud hynny?

Yn ôl y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, bwriad Llywodraeth y DU yw y bydd Ynni Prydain Fawr yn gallu darparu cymorth i "awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol trwy amrywiaeth o fecanweithiau, gan gynnwys trwy ddarparu ymhlith pethau eraill, ecwiti, benthyciadau, grantiau, yswiriant a gwarantau".

4. A fyddai modd i chi egluro a oes unrhyw orgyffwrdd posibl rhwng cylch gwaith, nodau a gweithrediad Ynni Prydain Fawr a chylch gwaith, nodau a gweithrediad Ynni Cymru, Gwasanaeth Ynni Cymru ac Ynni Cymunedol Cymru?

Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Bil ac Ynni Prydain Fawr yn gyffredinol, ond ei bod "am drafod ymhellach â Llywodraeth y DU ynghylch rôl Gweinidogion a Senedd Cymru yn y Bil".

5. A fyddai modd i chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw drafodaethau o'r fath?

Mae cymal 5 o'r Bil (sy'n ymwneud â blaenoriaethau a chynlluniau strategol) yn darparu bod rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol baratoi datganiad o'r blaenoriaethau strategol ar gyfer Ynni Prydain Fawr. Cyn gwneud datganiad, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru i'r graddau y mae'r datganiad yn ymwneud â materion sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Mae cymal 5(7) yn darparu y gellir bodloni'r ddyletswydd i ymgynghori drwy gynnal ymgynghoriad cyn i'r Ddeddf ddod i rym.

6. I ba raddau yr ydych chi'n ystyried ei bod yn briodol ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru, yn hytrach na cheisio cydsyniad Gweinidogion Cymru ar gyfer unrhyw flaenoriaethau strategol sy'n ymwneud â materion datganoledig?

7. Sut yr ydych chi wedi cyfrannu at y trafodaethau a gynhaliwyd hyd yn hyn ar flaenoriaethau strategol arfaethedig Ynni Prydain fawr?

8. Pa rôl fydd gan y Senedd o ran craffu ar y datganiad cyn iddo gael ei wneud, os yw'n ymwneud â materion sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd?

O ystyried yr amserlen y mae'r Pwyllgor yn gweithio tuag ati o ran cyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, byddwn yn ddiolchgar pe bai modd cael ymateb gennych cyn gynted â phosibl, ac erbyn 21 Hydref 2024 fan bellaf.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS,

Cadeirydd, y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.